

## OWEN, MORFYDD LLWYN (1891 - 1918), cyfansoddwr, pianydd, a chantores

**Enw:** Morfydd Llwyn Owen

**Dyddiad geni:** 1891

**Dyddiad marw:** 1918

**Priod:** Alfred Ernest Jones

**Rhiant:** Sarah Jane Owen

**Rhiant:** William Owen

**Rhyw:** Benyw

**Galwedigaeth:** cyfansoddwr, pianydd, a chantores

**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio

**Awdur:** Evan Thomas Davies

Ganwyd 1 Hydref 1891 yn Nhrefforest, Sir Forgannwg, yn ferch i William a Sarah Jane Owen. Roedd ei rhieni'n gerddorol - ei mam yn gantores a phianydd o allu uwch na'r cyffredin. Cafodd ei haddysg yn ysgol ganolradd Pontypridd a Choleg y Brifysgol, Caerdydd, lle yr oedd yn dal ysgoloriaeth gerddorol 'Caradog,' 1909-12, ac y graddiodd yn Mus. Bac. yn 1912; cafodd yrfa ddisglair yn y Royal Academy of Music, 1912-7; daliai ysgoloriaeth Goring Thomas, 1913-7, a dyfarnwyd iddi amryw o brif wobrau a medalau yr academi.

Yr oedd Morfydd Owen yn gerddor amryddawn a llawn o deimlad; yr oedd ganddi ddawn arbennig fel cyfansoddwr. Ymysg ei chyfansoddiadau y mae gweithiau i gerddorfau mawr a bach, i gorau, unawdau piano, caneuon (ynghyd â threfniadau alawon gwerin) - ac y mae i'r rhai hyn i gyd wreiddioldeb trawiadol, techneg perffaith, ac ansawdd arbennig yn perthyn iddynt. Y mae llawer o'i cherddoriaeth yn tarddu o ymdeimlad personol a chenedlaethol a symbylwyd gan lenyddiaeth a llên gwerin ei phobl. Y mae tair o'i chaneuon - 'To our Lady of Sorrows,' 'Slumber Song of the Madonna,' a 'Gweddi Pechadur' - yn enghreifftiau ardderchog o'i hathrylith; y mae'r tair, a'r dôn gynulleidfaol 'William,' wedi ennill eu plwyf yng Nghymru.

Priododd Chwefror 1917 â'r seicolegydd [Ernest Jones](#) (bu farw 1958). Bu ei marw, 7 Medi 1918, yn yr oedran cynnar o 26, yn gollod drom i gerddoriaeth Cymru.

### Awdur

Evan Thomas Davies, (1878 - 1969)

### Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

### Darllen Pellach

*Y Goleuad*, 10 Awst 1960

Rhian Davies, *Eneth ddisglair annwyl: Never so pure a sight* (1994)

Ben Gwalchmai, '[If the significance were fully realised, a nation would weep at her grave](#)', WalesOnline, 1 March 2017

[Morfydd Owen \(1891-1918\)](#), gwefan T Cerdd, gwelwyd 7 Mawrth 2018

Tom Davies, 'Marwolaeth Morfudd Llwyn Owen', *Y Traethodydd* (Cyf. 173, rhif 725, Ebrill/April 2018), tt. 104-113

Andrew Green, [Morfydd Llwyn Owen a Ruth Herbert Lewis](#)

Erthygl Wicipedia: [Morfydd Llwyn Owen](#)

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MS 18247D. - Material relating to Morfydd Owen \(1891-1918\), musician, including a typescript biography](#)

Archifau LIGC: [Eliot Crawshay-Williams Papers, G 25-48: Morfydd Llwyn Owen - gohebiaeth](#)

NLW Archives: [Kitty Idwal Jones papers: Morfydd Llwyn Owen](#)

VIAF: [50033248](#)

Wikidata: [Q6911506](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

